Pryd y mae'r Rheoliadau Adeiladu, Cynllunio a Rheoli yn berthnasol i brosiect?

Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o waith adeiladu, peirianneg sifil a pheirianneg cyffredin. Mae'n rhaid i chi hysbysu HSE o'r safle os disgwylir i'r gwaith adeiladu naill ai:

- para'n fwy na 30 diwrnod; neu
- gofyn am fwy na 500 o ddiwrnodau person o waith adeiladu;

Dylid hysbysu'r HSE yn ysgrifenedig cyn dechrau gwaith adeiladu; gallwch ddefnyddio ffurflen F10. Dylid anfon eich hysbysiad i'r swyddfa HSE agosaf i'r safle arfaethedig.

- **Ffurflen F10**

Nid yw'r Rheoliadau yn berthnasol i waith adeiladu os mai'r Awdurdod Lleol yw'r awdurdod gorfodi at ddibenion iechyd a diogelwch. Mae hyn yn golygu lle nad yw'r gwaith yn hysbysadwy a'i fod naill ai:

- yn cael ei gynnal y tu mewn i swyddfeydd, siopau a safleoedd tebyg lle gwneir y gwaith heb amharu ar weithgareddau arferol y safle a heb wahanu'r gweithgareddau adeiladu oddi wrth y gweithgareddau eraill; neu
- yn cynnwys gwaith cynnal a chadw ar ddefnyddiau inswleiddio ar bibellau, bwyleri a rhannau eraill o systemau gwresogi neu ddŵr neu eu gwaredu

ni fydd y Rheoliadau yn gymwys.

Heblaw am yr eithriad hwn, mae'r Rheoliadau yn gymwys i bob math i waith cynllunio a wneir at ddibenion adeiladu (yn cynnwys dymchwel a datgysylltu).

I gontractwyr, mae'r Rheoliadau yn gymwys i bob math o waith dymchwel a datgysylltu. Maent hefyd yn gymwys i fathau eraill o waith adeiladu oni bai:

- bod y gwaith yn para 30 diwrnod neu lai ac yn golygu na fydd mwy na phum person ar y safle ar unrhyw adeg; neu
- bod y gwaith yn cael ei wneud ar gyfer cleient domestig (hynny yw rhywun sy'n byw yn yr adeilad lle y gwneir y gwaith, neu a fydd yn byw yno). Yn yr achos hwn bydd yn ddyletswydd i hysbysu'r HSE a'r dyletswyddau a roddir ar gynllunwyr yn gymwys. Fodd bynnag, mewn rhai enghreifftiau gall cleientiaid domestig wneud cytundeb gyda datblygwr sy'n ymgymryd â masnach, busnes neu weithgaredd arall. Er enghraifft, gall datblygwr werthu cartref cyn i'r prosiect gael ei gwblhau. Yna bydd y cleient domestig yn berchen ar yr eiddo heb ei gwblhau, ond bydd y datblygwr yn dal i drefnu i'r gwaith adeiladu gael ei wneud. Yn yr achos hwn mae'r rheoliadau yn gymwys i'r datblygwr.

Cyfeiriadau

HSG150 – Health and Safety in Constuction (ISBN 0717621065 – ar gael gan HSE Books)